Cydymdeimlad, Cofion a Chyfarchion

Gyda thristwch y clywyd yr wythnos hon am farwolaeth Mrs Eilwen Jones, chwaer i Celfyn Williams (Groes), a llysferch i Merfyn James (Henllan). Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â'r teulu oll yn eu colled fawr. Gweddïwn y bydd Duw yn gwarchod drostynt mewn ffordd arbennig ac y byddant, ynghanol eu galar a'u hiraeth, yn profi cariad Duw yn gysur ac yn gymorth iddynt.

Ac ar ddiwedd blwyddyn fel hyn, gweddïwn y bydd pawb ohonoch sydd wedi colli anwyliaid yn ystod y flwyddyn yn adnabod heddwch a thangnefedd cwmni'r Arglwydd Iesu ac yn profi Duw yn ddigon dros y Nadolig a thros yr wythnosau a'r misoedd i ddod.

Cyflwynwn hefyd bob un ohonoch sydd heb fod cystal eich iechyd y dyddiau hyn, gan gofio'n arbennig am Eurgain Pierce (Llannefydd) sy'n parhau i gael gofal yn yr Inffirmari, a Merfyn Hughes (Llansannan) yn Ysbyty Clatterbridge. Mae'r ddau wedi treulio rhai misoedd mewn ysbytai, tra bod eraill wedi derbyn gofal tymor byr mewn ysbyty yn ystod y flwyddyn. Diolchwn am bob gofal sy'n cael ei roi, boed hynny yn yr ysbyty, mewn cartref gofal neu adref ar yr aelwyd. Cofiwn hefyd y rhai hynny o'n plith sydd wedi cael anffawd cas yn ystod yr wythnosau diwethaf a gobeithiwn y byddant yn cael gwellhad buan iawn. Mae'n dda clywed fod Llinos Hughes (Cefn Berain) yn ôl adref yn dilyn seibiant byr yng Nghartref Bron Afallen. Cyflwynwn bob un o'r cleifion, ynghyd â'u teuluoedd, i ofal Duw a hyderwn y byddant yn adnabod Ei gariad yn eu hamgylchynu ac yn gwarchod drostynt y Nadolig hwn.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Berwyn ac Ann Evans (Llansannan) sydd newydd ddathlu 60 mlynedd o briodas, ac i Maldwyn Davies (Llansannan) fydd yn dathlu pen-blwydd arbennig cyn diwedd y flwyddyn!

Apêl Argyfwng y Dwyrain Canol

Diolch yn fawr iawn i chi am eich cefnogaeth i'r miloedd lawer sydd wedi eu heffeithio yn Gaza ac Israel a'r rhanbarth ehangach ac sydd mewn angen mawr ar hyn o bryd. Mae *Tearfund* – sy'n gweithio gyda'r eglwysi a phartneriaid lleol yno – wedi derbyn cyfanswm o £2,040.00 gan aelodau Eglwysi Bro Aled er mwyn eu helpu i ymateb i anghenion pobl ar draws y rhanbarth. Diolch o galon i chi. Plîs parhewch i weddïo dros y sefyllfa dorcalonnus yno.

Llais Bro Aled

Bydd y rhifyn nesaf yn cael ei gyhoeddi ar **Ionawr 14eg.**

Pob bendith i chi i gyd dros y Nadolig.

Manylion Cyswllt

Mair – mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 07900 627536

Cyhoeddiadau ar gyfer y rhifyn nesaf i'w hanfon i Mair erbyn nos Fercher (10fed).

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 24 Rhagfyr 2023

eglwysibroaled.com *rhaglendorcas.com* *llanw.org*

Anrheg wedi ei lapio

Mae gweld anrhegion wedi eu lapio yn rhoi llawer mwy o wefr nag ydi cael anrheg heb bapur lapio amdano. Fyddai bore Nadolig ddim yr un fath heb y papur lapio! Mae'r datod a'r gweld a'r darganfod yn rhan o'r llawenydd a'r cyffro.

Crëwyd ni gyda chwilfrydedd i ddarganfod. Mae rhyw gynnwrf yn y disgwyl ac yna'r gweld. Meddai'r Arglwydd Dduw yn llyfr y Diarhebion, "Y mae'r rhai sydd yn fy ngheisio yn fy nghael," ac yn llyfr y proffwyd Jeremeia (29:13) fe ddywed, "Fe'm ceisiwch a'm cael; pan chwiliwch â'ch holl galon fe'm cewch". Dywedodd yr Arglwydd Iesu hefyd fod "yr hwn sydd yn chwilio yn cael". Dewis datguddio'i hun yn araf dros amser wnaeth Duw. Gallai fod wedi datgelu'r cwbl amdano'i hun o ddechrau amser ond gwyddai y byddem yn ei werthfawrogi yn fwy o chwilio amdano. Wrth ddadbacio'r Hen Destament a'r Testament Newydd cawn gyfle i weld ac adnabod Duw yn Iesu Grist. Wrth olrhain bywyd a gwaith Iesu Grist, gwelwn a phrofwn gariad rhyfeddol Duw tuag atom. Gallai fod wedi dod mewn ffordd ddramatig. Ond na, daeth yn fabi mewn preseb gan uniaethu â ni. Daeth hefyd i fod yn Dduw gyda ni, yn un i'n gwared a'n bugeilio ar daith bywyd. Wrth ei geisio a'i gael cawn ei weld yn ddyn i gydymdeimlo â'n holl wendidau ac yn Dduw i gario'r orsedd ar ddiafol, cnawd a byd. Yno down i fedru dweud yn llawen,

"Wele, cawsom y Meseia,
Cyfaill gwerthfawroca' 'rioed,
Darfu i Moses a'r proffwydi
ddweud amdano cyn ei ddod.
Iesu yw gwir Fab Duw
Ffrind a Phrynwr dynol-ryw."

Wrth ddad-lapio rhodd cariad Duw eleni canwn,

"Diolch, O Dad nefol
Am ddanfon Crist i'n byd
A gadael dy Ysbryd Glân
I'n harwain ni o hyd."

Cofiwn nad oes diwedd ar ddad-lapio rhodd Duw i'r byd. Mae llawer mwy i'w ddarganfod am Dduw a'i weithredoedd. Bydded ein gweddi y Nadolig hwn ac ymlaen i'r flwyddyn newydd,

"Ysbryd Sanctaidd, dyro'r golau
ar dy eiriau di dy hun;
agor inni'r Ysgrythurau,
dangos inni Geidwad dyn."

Y Parch. R. O. Roberts

Cyhoeddiadau'r Fro

Dydd Sul, Rhagfyr 24ain

- **Gwasanaeth Nadolig yn Henllan** am 2.00 y pnawn a bydd casgliad arbennig tuag at Shelter Cymru. Yn dilyn y gwasanaeth, bydd Parti Nadolig ac ymweliad gan Siôn Corn. Croeso i bawb.

Dydd Sul, Rhagfyr 31ain

Dydd Mawrth, Ionawr 2il

- **Paned a Sgwrs yn Festri Llansannan** am 1:30 y prynhawn. Croeso cynnes i bawb.

Dydd Iau, Ionawr 4ydd

- **Oedfa Dechrau'r Flwyddyn yn Saron** am 7.00 yr hwyr o dan arweiniad y Parch Gareth Edwards. Croeso cynnes i bawb.

Dydd Gwener, Ionawr 5ed

- **Paned a Sgwrs yng Nghapel Llannefydd** am 10:00. Croeso cynnes i bawb.

Dydd Sul, Ionawr 7fed

- **Gwasanaeth Thema yn Henllan** am 10:00.
- **Cyfarfod Gweddi Dechrau'r Flwyddyn yn Llansannan, Llanfair, Llannefydd, Groes, Saron a Chefn Berain** am 10:00.
- **Cyfarfod Gweddi yng Nghefn Meiriadog** am 10:30.
- **Cyfarfod Gweddi yn Nantglyn** am 2:00.

Dydd Mawrth, Ionawr 9fed

- **Cinio Jangl** yn Festri Llansannan am 12:00.
- **Cyfarfod Blaenoriaid a Diaconiaid Gofalaeth Bro Aled** yn Llansannan am 7:30 yr hwyr.

Dydd Iau, Ionawr 11eg

- **Hwyl Pnawn Iau (ar gyfer oedran derbyn – Bl.6)** yn Festri Llansannan o 3:15–4:30 y pnawn. Os oes plant eraill am ymuno, wnewch chi gysylltu hefo Anti Olwen (07359 154228) i gofrestru ac i nodi unrhyw alergeddau, os gwelwch yn dda?

Dydd Sul, Ionawr 14eg

- **Oedfa** yn Llansannan am 9:30 ac yng Nghefn Meiriadog am 11:00 o dan arweiniad Dr Owain Edwards. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydredeg â'r oedfa yn Llansannan.
- **Oedfa yn Henllan** am 9:30 ac **yn Llannefydd** am 11:00 o dan arweiniad Mr Celfyn Williams.

Aduniad Souled Out (2il–4ydd Chwefror 2024)

- Penwythnos i bobl ifanc 15+ a myfyrwyr yng Ngholeg y Bala. Cyfle i weld hen ffrindiau, cyfarfod â phobl newydd, mwynhau gweithgareddau hwyl, yn ogystal ag addoli Duw a dysgu mwy amdano wrth archwilio'r Beibl hefo'n gilydd. Cost y penwythnos fydd £72. Mae'n bosib cofrestru ar-lein ar dudalen 'Aduniad' souledoutcymru.net neu trwy ffonio 01678 520565. *(Cofiwch mai hanner y pris fydd y gost i'r ail neu drydydd person o'r un teulu, a bod Eglwysi Bro Aled yn cynnig £10 o ostyngiad i bob unigolyn mewn addysg sydd am fynychu.)*